

Llawenychais pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ yr Arglwydd (Salm 122:1)



Dathlu 60 mlynedd o bregethu. Mr J.O. Roberts yn Shiloh, Tregarth



Cacen arbennig i Mr J.O. Roberts



Yng nghymanfa Dyffryn Conwy

Bedydd Gwil Samuel yn Salem Rhyd-y-foel



Miri Mehefin - Rhai o blant Ebeneser



Miri Mehefin – Rhai o blant Penisarwaun



Miri Mehefin – Rhai o blant Shiloh Tregarth

Caradog Hughes yng nghymanfa Dyffryn Conwy



Horeb, Bae Colwyn ar ei newydd wedd



Ebeneser, Caernarfon – cyrraedd i Gymanfa Miri Mehefin

Gwylledydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

RHIF 190
AWST - MEDI 2014

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn; 40c y copi;
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR
YN YR EITEMAU UNIGOL**

Golygyddion:

ROBIN JONES

LLYS ALAW

18 STÂD ERYRI

BETHEL

CAERNARFON

GWYNEDD LL55 1BX

Ffôn: 01248 670140

symudol: 07780869907

e-bost:

robinbethel@tiscali.co.uk

FFION ROWLINSON

CRUD YR AWEL

LÔN NEWYDD COETMOR

BETHESDA

GWYNEDD LL57 3DT

Ffôn 01248 605365

e-bost:

ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

***Croeso i chi anfon at
Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU:
3 MEDI, 2014**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i
“Y Llyfrfa Fethodistaidd”

Argraffwyr:

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018

*Llun y clawr:
Dysgu a Gofalu
gan Annest Rowlinson.
Diolch yn fawr, Annest!*

Llongyfarchiadau calonnog
i'n Cadeirydd
ar ennill ei doethuriaeth

Er cof annwyl am
PHILIP JONES
a fu farw 21 Awst 2005
*Eluned, Siwan, Richard,
Bethan ac Owain Rhys*

OR GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig JENNIFER HURD

Dwi wedi bod yn meddwl yn ddiweddar am ffiniau, pwnc digon addas efallai ar gyfer y Gadair ar y Goror! Ond dydw i ddim ar y goror wrth i mi ysgrifennu, ar ddiwedd mis Mehefin – dwi wedi croesi'r ffin i Birmingham ar gyfer y Gynhadledd Fethodistaidd. Mae'n anodd peidio â bod yn ymwybodol o ffiniau daearyddol os ydych yn byw yn Four Crosses: mae mans y Cadeirydd yn agos iawn at Glawdd Offa, sy'n rhedeg trwy'r pentref. Ces i fy magu yn agos at ffin hefyd, sef Afon Humber. Cyn i Bont Humber gael ei hadeiladu, roedd yr afon yn ffin go iawn. Ond erbyn hyn, mae'n hawdd croesi drosodd i Swydd Lincoln. Mae technoleg hefyd yn diddymu ffiniau yn ein hoes ni: er enghraifft, mae'n bosib darllen y Gwylledydd ar y we bellach, drwy fynd i www.synodcymru.org.uk, ym mhob cwr o'r byd! Ac yn y Gynhadledd, mae'r cyfundeb Methodistaidd ar ei orau yn gweithio fel un eglwys dros ffiniau daearyddol Prydain i gyd. Yn ystod yr amser y bu'r Gynhadledd yn cyfarfod, un arall a groesodd ffiniau daearyddol yw Constanza Pulgar Bart, ein hymwelydd ifanc sy'n dod i Synod Cymru o Chile ac sy'n astudio yng Nghaerdydd dros yr haf. Nid yw ffiniau daearyddol yn wahanfuriau mwyach.

Mae ffiniau daearyddol yn aml iawn yn golygu ffiniau ieithyddol. Mae'n amhosib osgoi ffiniau ieithyddol yng Nghymru. Mae Constanza wedi dod i Gymru eleni i ddysgu Cymraeg, sy'n rhan bwysig o etifeddiaeth ei theulu, yn ogystal â dysgu am fywyd yr Eglwys Fethodistaidd yma. Ond mae hi eisiau gwella ei Saesneg hefyd. Mae hi yn y lle iawn. Mae Cymru'n wlad ddwyieithog, ac mae'r Eglwys Fethodistaidd, yn gweithio trwy Wales Synod, Synod Cymru a'r Cyngor (efo'i Lywydd newydd, Mrs Maryl Rees o Ardal Glannau Maelor) yn eglwys ddwyieithog. Rydym yn croesi ffiniau iaith bob dydd wrth i ni geisio gwasanaethu Duw. Cafwyd sgwrs ddiddorol yn ddiweddar yng Nghyfarfod Cylchdaith Cymru am genhadaeth, a sut i ymdopi â natur ddwyieithog cymdeithas Cymru wrth i ni ystyried ein galwad. Mae gennym ni ddwywaith y cyfle i rannu'r newyddion da gan ein bod yn siarad dwy iaith!

A sôn am ein galwad, mae'n wych gweld ymateb y rhan fwyaf o'n Hardaloedd i syniad Datblygu Ein Galwad, a gafodd ei fabwysiadu gan y

Synod ym mis Ebrill. Mae hyn yn cynnig cyfle i groesi ffiniau hefyd, yn arbennig ffiniau personol efallai, wrth i ni ganolbwyntio ar thema Dysgu a Gofalu yn ystod 2014-15. Mae Duw yn ein newid ni wrth i ni ddysgu, dwi'n credu: mae'n gallu ein gwthio tuag at ein ffiniau personol, ein hannog ni i ofyn cwestiynau, ein harwain tuag at ddealltwriaeth newydd sy'n gallu newid y ffyrdd rydym ni'n gweld y byd a Duw a ffydd, am byth. Dwi wedi profi hynny fy hunan wrth i mi ddysgu'r iaith Gymraeg, a hefyd wrth astudio am radd uwch mewn Diwinyddiaeth Ymarferol yn ddiweddar.

Pan fyddwn yn croesi ffiniau damcaniaethol ffydd a syniadau, mae'r ffordd rydym yn gwneud pethau yn newid hefyd. Byddwn yn gwneud pethau na wnaethom ni erioed ddychmygu eu bod yn bosibl, yn cyfarfod â phobl newydd ac yn gwneud pethau newydd. Pwy a wŷr pa weithredoedd newydd fydd yn bosibl ym mywydau ein capeli a'n Hardaloedd wrth ddatblygu Dysgu a Gofalu eleni? Mae croesi ffiniau syniadau yn ein harwain i groesi ffiniau ymarferol newydd, sy'n ein gwthio ni eto tuag at ffyrdd ffres o feddwl, sy'n adnewyddu ein hymarfer, ac yn y blaen. Dyna sut y mae Duw yn ein harwain ni ymlaen yn ei wasanaeth, ar antur ffydd sy'n cynnwys croesi llawer o ffiniau, nid lleiaf ffiniau enwadau. Mae ein taith gyda'n gilydd fel Eglwys Cyfamodol Cymru yn parhau, wrth i'r pum enwad cyfamodol rannu ein hymatebion yr hydref hwn i'r awgrymiadau am undod a ddaeth allan o'r Cydgynulliad yn Aberystwyth ddwy flynedd yn ôl. Erys ffiniau i'w croesi o hyd, ond rydym wedi dechrau'r daith.

Ffiniau daearyddol, ieithyddol, damcaniaethol, ymarferol, diwinyddol - ond fe wnaeth Duw eu croesi nhw i gyd wrth groesi'r ffin rhwng nefoedd a daear er mwyn dod yn un â ni yn Iesu Grist. Yn Iesu, mae pob ffin yn disgyn i lawr: mae wedi dinistrio pob wal sy'n ein gwahanu ni ac mae wedi ein cymodi â Duw ac â'n gilydd (2 Corinthiaid 5:19). Yr her i ni yw dangos bod hyn yn realiti! Wrth i ni groesi'r ffin rhwng un flwyddyn gyfundebol a'r nesaf ar Fedi 1af, boed i Dduw ein hatgyfnerthu a'n hysbrydoli gan ein llenwi ni â llawenydd yn ei wasanaeth. Blwyddyn newydd eglwysig fendithiol iawn i bawb.



◆ De Gwynedd

ER COF AM MISS NELLIE DAVIES

Gyda gofid a chwithdod y cofnodir marwolaeth Miss Nellie Davies, Nefyn, ar drothwy ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Ganwyd hi yn Tai Ffolt, Mynydd Nefyn, tŷ â'i ffenestri'n edrych allan i gyfeiriad y bae hardd islaw. O'r flwyddyn 1951 hyd eleni bu'n byw yn Stryd Mynach; yn Nefyn a'r fro oddi amgylch y treuliodd Nellie ei hoes i gyd. Roedd yn gymeriad hoffus a oedd bob amser yn groesawus. Gwelodd lawer storm yn ystod ei hoes hir ond cadwodd ei gwên a bu'n ddewr iawn hyd y diwedd. Roedd yn gwbl ddi-lol, yn gallu traethu yn ffraeth, ceryddu'n gwrtais a gwerthfawrogi'n gynnes. Gwelodd newid mawr yn ystod ei hoes a hoffai sôn am yr hen gymeriadau a'r hyfrydwch a gâi yn eu cwmni. Bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel Wesleyaidd Moriah, Nefyn, a bu'n fawr ei gofal am yr adeiladau. Loes iddi fu gweld yr hen gapel wedi cau, yn segur ac yn dirywio.

Gohebydd – W. Arvon Roberts

◆ Dyffryn Conwy

Ar brynhawn Sul 8 Mehefin cynhaliwyd ein Cymanfa yn Eglwys Ebeneser, Eglwysbach, o dan arweiniad y Parchedig Philip Barnett. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Parchedig Ifor Jones a'r organydd oedd Mrs Diana Hughes. Llywydd y Gymanfa oedd Mrs Deryl Jones a chafwyd anerchiad diddorol iawn yn olrhain hanes hen dystysgrifau yr oedd wedi eu hetifeddu gan ei hen fodryb. Cawsom hefyd dri unawdydd - Caradog, Ian ac Arwel. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniad i'r Gymanfa eleni.

◆ Eglwys Unedig Colwyn

DECHRAU CANU

Daeth nifer dda o gantorion i Gapel Horeb ar Fai 19 i recordio dwy raglen ar gyfer 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'. Bydd y rhaglenni yn cael eu darlledu ar Sul y Cofio ym mis Tachwedd ac ar Sul dathlu Santes Dwynwen yn Ionawr 2015. Yr arweinydd oedd Trystan Lewis gyda Rhys Roberts wrth yr organ.

RHODD ARBENNIG

Ar fore Sul Mehefin 1 cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i gyflwyno gorchudd

pulpud newydd i Horeb. Rhodd gan Mr a Mrs Harold Williams yw'r gorchudd a hefyd llenni newydd o flaen yr organ. Nith Harold a Megan sef Miss Lynne Thomas fu'n cynllunio ac yn gwnio'r cyfan a diolch iddi am ei gwaith hardd. Yn anffodus iawn nid oedd Harold a Megan yn gallu bod hefo ni ar y diwrnod oherwydd gwaeldd. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonynt. Pwysleisiodd y Parchedig R Ifor Jones mor fawr fu eu cyfraniad i fywyd defosiynol a chymdeithasol Horeb.

YR ORSEDD

Llongyfarchiadau gwresog i Arfon Haines Davies ar gael ei anrhydeddu gan yr Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli ym mis Awst.

Gohebydd – Rhiannon Jones

◆ Pont Robert

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Mrs Gwyneth Lewis a'r teulu yng Ngheddfa ym marwolaeth y Parchedig Iwan Lewis. Bu'n weinidog ffyddlon, cymwynasgar a chyfaill annwyl iawn.

Cydymdeimlwn ag Ogwyn Davies, Rhosymenyn, Sharon a Phillip ym marwolaeth Nesta Williams o Feifod. Atgofion annwyl amdani. Cydymdeimlwn hefyd ag Eirlys Edwards, Brynawel, sydd wedi colli modryb.

GWELLHAD

Dymunwn wellhad buan i Bryan Jones a hefyd i'w ferch Bethan Watkins, Llanfyllin.

DYMUNIADAU DA

Llongyfarchiadau i Rhodri Jones ar ennill Ysgoloriaeth Maidment yng Ngholeg Cerdd a Drama'r Guildhall, Llundain.

LLONGYFARCHIADAU

Pob dymuniad da i Gwyn, mab Bronwen a Huw Gwalchmai, Pencoed, a Sarah ar eu priodas.

Gohebydd - Margaret Blainey

◆ Salem, Rhyd-y-Foel

BEDYDD

Ar 11fed o Fai, gyda'r Parchedig Tudur Rowlands yn gwasanaethu, fe fedyddiwyd Gwil Samuel, mab Karl a Rowena Pegg a brawd bach Cadi Mai. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd parti i ddathlu yn neuadd y pentref.

Y GYMANFA YSGOLION

Fe gynhaliwyd y Gymanfa Ysgolion eleni yng nghapel Bethel, Prestatyn. Diolch yn fawr i Beth a Steffan am gynrychioli Salem a diolch i Geraint Roberts ac aelodau Ysgol Sul Bethel am eu cyfraniad ac am eu hymroddiad difflino yn hyrwyddo'r Gymanfa Ysgolion.

Gohebydd – Siân Price

◆ Tabernacl, Llanfyllin

Ymddiheurir nad ymddangosodd newyddion o Bowys yn rhifyn diwethaf y Gwyllydd.

LLONGYFARCHIADAU

Enillodd Llŷr Lewis, ŵyr i Emrys a Derwenna Jones, Llwyn y Gân gynt, Ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd. Ar hyn o bryd mae'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe, ac yn Fardd y Mis gyda Radio Cymru. Llongyfarchiadau hefyd i'w frawd sef Rhidian sydd wedi ennill Gradd MA o Brifysgol Caerdydd. Mae'n olygydd sgript ar hyn o bryd, yn gweithio ar Bobol y Cwm. Mae Rhodri Jones, un o gyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul Undebol yn Llanfyllin yn mynd o nerth i nerth yn ei yrfa gerddorol. Mae'n fyfyrwr yng Ngholeg y Guildhall, Llundain, ac yn ddiweddar dyfarnwyd iddo Ysgoloriaeth Maidment. Llongyfarchiadau i Sarah Ellis, Pwynt, ar ei phenodi'n athrawes Gwyddoniaeth Cyfrwng Cymraeg ac Addysg Gorfforol yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Pob hwyl i ti yn y gwaith!

DRWS AGORED

Cafwyd sgwrs ddiddorol ac ysbrydoledig gan Vanessa Thomas, yn disgrifio hanes Tŷ Gobaith, yr hosbis i blant.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn gywir iawn â Mrs Gwyneth Lewis ar farwolaeth ei phriod y Parchedig Iwan Lewis.

Er Cof am

y Parch Iwan Pennant Lewis

Yn was i Dduw, ei oes i ddyn, – galwyd i fugeilio Maldwyn; cyflawn oedd dawn y dyn bydd cofio 'mhob bro a bryn.

Cydymdeimlwn yn gywir iawn â nifer o deuluoedd a fu mewn profedigaeth: Mrs Della Williams, Maesydderwen, Marian Roberts, Maesydderwen, Mr a Mrs Elwyn Roberts, Cartref a Mrs Joyce Jones, Hafodunnos. Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Tyntwll, Bryncoch a Gwalia gynt, ar farwolaeth annhymig Tomos Morgan. Roedd Tomos yn ŵyr i'r diweddar Barchedig Gwylfa Morgan.

SUL Y MAER

Roedd cynulliad da iawn a chynrychiolaeth o'r holl eglwysi ar gyfer yr oedfa undebol yng Nghapel y Tabernacl ar Fehefin 1af, Sul y Maer. Rhoddwyd y casgliad o £125 i Ambiwllans Awyr Cymru, elusen benodedig y maer sef y Cynghorydd Ann Williams.

CYNGERDD BENDIGEDIG

Dyna oedd geiriau cyntaf Tom Ellis wrth iddo dalu'r diolchiadau ar ddiwedd y Cyngerdd Mawreddog a gynhaliwyd yn Theatr Llwyn, Llanfyllin ar nos Sadwrn Mai 24ain. Roedd y Theatr yn llawn a phawb wedi mwynhau rhaglen wych o gerddoriaeth. Yr artistiaid oedd Gwyn

CAPEL YN EGLWYS IESU

Hughes Jones, y tenor byd enwog o Ynys Môn, gyda'i gyfeilyddes adnabyddus Annette Bryn Parri; Côr Godre'r Garth o Forgannwg dan arweinyddiaeth Eilir Owen Griffiths, eu cyfeilyddes Branwen Evans a'u hunawdydd Hannah Owen Griffiths. Roedd elw'r noson yn cael ei rannu rhwng Capel y Tabernacl a'r apêl leol at Steddfod Meifod. Nid oes amheuaeth mai dyma un o'r cyngherddau gorau a gafwyd erioed yn Theatr Llwyn.

Gwyn Hughes Jones

Y seren ar lwyfan sirol, – y cynnwrf,
y canwr rhyngwladol;
ac arwr mor wladgarol
a'i rin bery ar ei ôl.

Côr Godre'r Garth

Côr â dawn o Fro Caerdydd, â'u hynod
a'u henwog arweinydd;
a dod i arwain y dydd
â'i afiaith wnaeth ein Dafydd.

Annette Bryn Parri

Canmolwn y ferch ardderchog, – Annette
a'i nwyf tra thalentog,
ac mewn gwledd mor fawreddog
'roe't ti'n gain, ac 'rwyf ti'n Gog !!

DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL

Roedd 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' yn cael ei recordio yn y Tabernacl ar ddydd Sul Mehefin 29ain gyda Linda Gittins yn arwain a Huw Davies wrth yr organ. Roedd hyn fel rhan o'r paratoadau ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol sydd yn dod i Feifod yn 2015.

Gohebydd – Robin Hughes

◆ Bethel, Rhiwbeina, Caerdydd

TEITHIAU CERDDED

Yn ystod mis Mai aeth aelodau o Fethel ar daith o gwmpas Pentre'r Gerddi yn Rhiwbeina. Arweinydd y daith oedd Gwilym Roberts a chafwyd hanes diddorol ganddo am ddatblygiad y lle cyn hwn yn Rhiwbeina gyda'i dai hynod ac unigryw. Bu'r pentref yn gartref i lenorion a Chymry enwog Caerdydd yn ei amser.

Ym Mehefin gwnaed trefniadau gan Gwenda Francis er mwyn i aelodau heini Bethel fynd ar daith gerdded o amgylch Llyn Parc y Rhath. Ar y terfyn ymunodd rhai llai heini â hwy am bryd o fwyd blasus.

Ar 1 Gorffennaf, cafwyd clo i weithgareddau cymdeithasol Bethel am y tymor pryd y cynhaliwyd swper bys a bawd mewn gwesty lleol. Trefnwyd y noson gan Gwenda Francis, ysgrifenydd y capel.

SUL Y PENTECOST

Cafwyd gwasanaeth hyfryd fore'r Sulgwyn pryd y bedyddiwyd Lois, merch Dyfan a Sioned Edwards. Ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, oedd yn arwain y gwasanaeth. Mae Lois yn un o aelodau ffyddlon yr Ysgol Sul.

CÔR AELWYD HAMDDEN

Yn ystod mis Mehefin cynhaliwyd cyngerdd ffarwel Côr Aelwyd Hamdden yn y capel. Daeth y côr i ben ar ôl 17 mlynedd. Ym Methel y bu'r côr yn ymarfer dros y blynyddoedd.

BEDYDD MIMI ALAW

Ym mis Gorffennaf cafwyd bedydd arall pan fedyddiwyd Mimi Alaw, merch fach Trystan a Siân Francis gan ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan.

Gohebydd - Gwilym E Roberts

◆ Ardal Bathafarn

YMDDEOL

Dymuniadau gorau i Rhian Roberts ar ei hymddeoliad, ar ôl blynyddoedd yn dysgu yn Ysgol Pen Barras.

BRYSIWCH WELLA

Anfonwn ein cofion anwylaf at Gwynfryn Jones ac at Dylan Parry, Tŷ Ucha Llyn a phawb sydd mewn gwaeledd.

Cofiw'n ein gweddïau am Philip ac Eira Davies, Wrecsam, a gafodd ddamwain ddifrifol yng Nghyprus. Dymunwn wellhad buan iddynt.

DATHLU

Llongyfarchiadau calonnog iawn i'r Parchedig Cledwyn Parry, cyn Arolygwr Ardal Bathafarn, ar ddathlu pen-blwydd arbennig, yn 90 oed. Pob bendith a hapusrwydd iddo.

GWASANAETHAU

Diolchwn i'r Parchedigion Martin Evans-Jones, Gwyndaf Richards, Gwilym O. Jones, T. Evans-Williams a Raymond Hughes, y Diacon Stephen Roe a Mr Elwyn A. Jones am eu gwasanaeth. Hefyd cafwyd oedfa fendithiol pryd y daeth rhai o'r aelodau at ei gilydd i gymryd rhan, sef Meta, Lowri, Cyril Jones, Olwen Griffiths, Rhodri ac Emrys Davies. Rhoddwyd cyfle i bawb ddewis hoff emyn ac egluro eu dewis. Y cyfeilydd oedd Rhian Roberts.

DYDD TAWEL

Hyfryd oedd dod at ein gilydd fel gweinidogion ac arweinyddion ardal-oedd, yn nhref hynafol Llanfyllin, a diddorol oedd gwrando ar y Parchedig Manon Ceridwen James yn sgwrsio am farddoniaeth a Christnogaeth. Diolch i gyfeillion Llanfyllin am y cinio blasus a gawsom hefyd. Buom am dro o gwmpas

y dref i weld Capel yr Annibynwyr sydd â chysylltiadau ag Ann Griffiths, yn ogystal â hen ffynnon a adnewyddwyd a sawl man arall.

PENWYTHNOS PRYSUR

Bu rhai o aelodau a ffrindiau Ardal Bathafarn ar Bererindod y Dalaith ym mis Mai. Hyfryd oedd cael gwasanaeth yn Eglwys Nantglyn a chyfle i ganu emynau Charles Wesley. Roedd y Parchedig Martin Evans-Jones wedi paratoi yn fanwl er mwyn rhoi'r hanes inni. Pan ddathlwyd canmlwyddiant Wesleaeth Gymraeg yn Awst 1900, mae'n debyg fod cannoedd wedi dod ynghyd i ddathlu ar dir Castell Rhuthun. Mwynhawyd swper ym Melin Brwews. Llauer o ddiolch i Robin Jones am drefnu'r cyfan ac i gyfeillion Dyffryn Clwyd am y croeso. Diwrnod i'w gofio yn sicr, a'r haul yn gwenu arnom. Edrych ymlaen at y trip nesaf rŵan!

Y diwrnod canlynol cawsom Gymanfa arbennig o dda gyda Meinir Lynch, Llangwm, yn arwain. Defnyddiodd fap o Gymru a gofyn inni enwi rhai ardaloedd ar y map - sef enwau rhai o'r tonau yr oeddem i'w canu, fel Berwyn, Fflint, Preseli, Builth, Rhondda ac yn y blaen. Arweinydd y gweithgareddau oedd Elwyn Ashford Jones ac roedd y defosiwn yng ngofal Marian, Corwen.

Gohebydd – Elizabeth Jones

◆ Ebeneser, Dolgellau

LLONGYFARCHIADAU

I Ron ac Ann Williams, Sŵn-y-Gwynt, ar enedigfaeth Myfi Huw, wyres fach arall iddynt ar 25ain o Fehefin. Merch fach i Dyfan eu mab a'i wraig, Morfydd a chwaer i Gwenllian Haf ydyw Myfi, ac mae'r teulu'n byw yn Aberystwyth.

GWELLHAD

Dymunwn wellhad buan i Mrs Peggy Walker, Henfelin.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â'r Parchedig Patrick Slattery a'r teulu ar golli ei frawd ym mis Mehefin.

Gohebydd - Gwyneth Meredith

◆ Saron, Bethel, Arfon

DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn wellhad buan i Mrs Delyth Williams, ein hysgrifennydd. Mae Delyth wedi cael triniaeth i'w throed yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, yn ddiweddar ac yn symud ar ddwy ffon ar hyn o bryd. Brysiwch wella, Delyth.

Mae Huw, un o blant bach ffyddlon Saron, wedi bod yn dioddef problem anadlu. Brysia di wella hefyd, Huw, a phob hwy i ti, Cadi a Charles dros wyliau'r haf.

Cofion hefyd at Elin a'r teulu yn Llanberis.

Gohebydd – R.J.

CAPEL NI YN EGLWYS IESU

◆ Ebeneser, Trefor, Môn

CYFARFOD PREGETHU

Ar nos Iau hynod o braf ganol Mai cynhaliwyd y Cyfarfod Pregethu blyneddol. Eleni roedd y gwasanaeth o dan ofal y Parchedig W.R. Williams, Y Felinheli. Cafwyd pregeth rymus yn seiliedig ar hanes Ruth a Naomi.

GYDAN GILYDD

Daeth aelodau o dair eglwys Môn at ei gilydd ddydd Sul Mehefin 1af i gapel Maelog, Pencarnisiog. Roedd y gwasanaeth a'r Cymun o dan ofal y Diacon Stephen Roe a'r organydd oedd Mrs Margaret Roberts. Diolch am gael mwynhau cydaddoli a diolch i aelodau Maelog am y croeso a'r te.

CYFEILLION NEWYDD

Ambell brynhawn Sul yn ddiweddar rydym wedi bod yn cael cwmni dwy ychwanegol yn yr oedfa sef Mrs Margaret Thomas a Mrs Glenys Jones. Mae Mrs Thomas wedi bod yn dod atom ers sawl blwyddyn bellach i gynnal oedfa. Braf iawn yw cael cwmni'r ddwy a'u lleisiau yn rhoi hwb mawr i'r canu.

Gohebydd – Carys Thomas

◆ Horeb, Croesoswallt

PROFEDIGAETH

Cydymdeimlwn yn gywir â Melfyn a Brenda Evans a'r teulu wedi marwolaeth mam Melfyn, sef Mrs Ada Evans gynt o Bencaedu, Llangynog, a Llansanffraid, ond yn y diwedd yn ymgartrefu yn Llwyn Teg, Llanfyllin.

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

Cynhaliwyd y Pwyllgor Blyneddol ar ddechrau mis Mai. Swyddogion y flwyddyn nesaf fydd Eurwyn Jones (Llywydd), Tom Davies (Is-lywydd), Hefin Jones (Ysgrifennydd) ac Aubrey Davies (Trysorydd). Pasiwyd i roi £100 i Bwyllgor Apêl Eisteddfod Meifod. Cafwyd awgrymiadau at raglen y tymor nesaf a fydd yn dechrau ar Hydref 6ed.

CYMORTH CRISTNOGOL

Casglwyd swm anrhydeddus o arian eto eleni. Diolch i'r cyfeillion a fu wrthi yn casglu.

GWELLHAD BUAN

Dymunwn wellhad buan i Dr a Mrs Philip Davies, Wrecsam, ar ôl y ddamwain erchyll a gawsant tra ar eu gwyliu dramor.

PREGETHWYR

Diolch yn fawr iawn i'r pregethwyr a fu'n gwasanaethu yn Horeb a Seion:- Y Parchedigion Gwilym O Jones, Nerys Tudor, Eric Green; Mrs Mair Penri Jones, Mr Tom Ellis, Mr John Ellis a Miss Rhoswen Charles.

Gohebydd – Eurwyn Jones

◆ Shiloh, Tregarth

GWASANAETHAU ARBENNIG YR YSGOL SUL

Cafwyd gwasanaeth yng nghwmni plant, ieuencid a rhieni'r Ysgol Sul ar Sul y Blodau eleni, gydag unawd gan Cerys, dwy gân gan aelodau ieuengaf yr Ysgol Sul ac emynau a chaneuon tymhorol.

Trefnwyd gwasanaeth arbennig gan aelodau'r Ysgol Sul hefyd ar gyfer Sul Cymorth Cristnogol ym mis Mai. Roedd yn hyfryd croesawu Trefnydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru i'r gwasanaeth, sef Cathrin Daniel, o Fangor yn wreiddiol. Bu'n gweithio am gyfnod yn Sierra Leone cyn dychwelyd i Gymru i weithio i Cymorth Cristnogol. Gwnaed casgliad o £140 at Gymorth Cristnogol.

MIRI MEHEFIN

Diolch o waelod calon i gyfeillion Capel Ebeneser, Caernarfon, am eu croeso cynnes i Miri Mehefin, sef Cymanfa Ysgolion Sul Arfon, ar Fehefin 22. Roedd y canu yn ardderchog dan arweiniad medrus Huw Edward Jones, Llanfairpwll, gyda Mrs Helen Williams, Llanllechid, yn cyfeilio. Cafwyd te parti gwerth chweil hefyd. Diolch i aelodau Ysgol Sul Shiloh fu'n casglu at y Genhadaeth eleni, sef Hannah a Joshua Williams; Nel Mai, Myfi Celyn ac Ifan Rhys Cooke; Siwnamis a Caleb Lleu Efans; Gwenno a Iestyn Roberts.

GOLFFWR O FRI

Llongyfarchiadau i Hywyn Griffiths, mab Anwen Griffiths, Cysgod y Parc, Sling, a'r diweddar Tom Griffiths, gynt o Fferm Tanrhiw, ar ei lwyddiant mawr yn y byd golffio.

BAND JAZZ

Fis Ebrill yn Nhreorci yn y Rhondda, bu Band Jazz Ysgol Tryfan, Bangor, yn cystadlu mewn cystadleuaeth arbennig iawn i ddod o hyd i'r band gorau yng Nghymru. Arweinydd y band yw Owain Arwel Davies, tad Cerys, Elliw a Tomos, tri o aelodau Ysgol Sul Shiloh, ac un o aelodau'r band yw Tomos Morris Jones, Tregarth. Er na ddaeth y band i'r brig y tro hwn, roedd yn werth cael gweld a gwrando arnynt yn perfformio ar y teledu.

DATHLU TRIGAIN MLYNEDD

Pnawn Sul, Mehefin 2, cafwyd gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Philip Barnett ac yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd tysteb i gydnabod gwaith Mr John O. Roberts, sydd wedi bod yn

bregethwr cynorthwyol ers 60 mlynedd. Cyflwynwyd y dysteb hardd gan Mr Gwyn Jones, Goruchwyliwr yr Ardal. Yn dilyn yr oedfa cafodd yr holl gynulleidfa gyfle i gyfarfod uwchben paned a theisen fendigedig a wnaed ar gyfer yr achlysur. Cyflwynwyd rhodd hefyd i'r Parchedig Gwynfor Williams i gydnabod ei waith fel gweinidog Shiloh am y deuddeg mlynedd diwethaf.

LLONGYFARCHIADAU

Mae Mrs Falyri Jenkins, merch Mr Dennis Griffiths, un o aelodau ffyddlonaf Shiloh, yn cael ei hurddo am ei gwaith ym myd addysg a cherddoriaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr yn Llanelli eleni. Athrawes ymroddgar a thalentog yw Falyri, a ysbrydolodd genedlaethau o blant i fwynhau cerddoriaeth. Cafodd Cymru gyfan gyfle i fwynhau ei doniau cerddorol mewn pum llyfr o ganeuon hwyliog a llawn hiwmor. Llongyfarchiadau, Falyri!

PROFEDIGAETH

Daeth profedigaeth i ran Mrs Lilian Brockelbank a gollodd ei chwaer, sef y diweddar Mrs Margaret Vaughan Williams. Cydymdeimlwn â Lilian a'r teulu yn eu galar.

PRIODAS

Llongyfarchiadau i Siôn Glyn, mab Gwenda a Glyn Davies, Cae Glas, Tregarth a briododd ar Orffennaf 5 gyda Elinor Haf Churchill yn Eglwys Sant Mihangel, Abergele. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Gohebydd – Gwenda Davies

◆ Ebeneser, Caernarfon

CROESO ADREF

Da yw gweld **Merfyn Roberts, Dorothy Pritchard, Nel Williams** ac **Aelwen Morris** yn gwella ar ôl wythnosau yn yr ysbyty.

GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein cofion at **Mary Christine Jones** a gafodd godwm trwm.

CARTREF NEWYDD

Bu **Lil Watkins** yn aros gyda'i mab Dilwyn a'i wraig yn Swydd Caint am gyfnod o ddau fis. Yn y cyfamser heb oedi fawr gwnaed trefniadau iddi symud i fflat ger y Fenai, mewn cyrraedd i'r capel a'r siopau.

CELF A CHREFFT

Bu Catrin, un o ffyddloniaid yr Ysgol Sul, yn llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Daeth yn drydydd mewn cystadleuaeth celf a chrefft.

PRIODAS

Llongyfarchiadau i Marian a Dave ar achlysur eu priodas. Roedd Bryn, yr ieuengaf o deulu Is Horeb, a brawd i'r briodferch, adref ar gyfer yr achlysur ar ôl treulio blwyddyn yn gweithio yn Awstralia. Mae ei fryd ar deithio draw i

Ganada yn y dyfodol agos. Pob hwyl iddo yntau.

MIRI MEHEFIN

Hyfryd oedd gweld cynifer yn bresennol yn y Gymanfa ar brynhawn hafaidd braf eleni. Y cyflwynydd oedd Megan Roberts, arweinydd y gân oedd Huw Edward Jones a'r cyfeilydd oedd Helen Wyn Williams. Dewiswyd yr emynau allan o Ganeuon Ffydd, Clap a Chân i Dduw a Glas, Glas Blaned. Ni chafwyd ein siomi. Pawb ar ei orau. Yr emynau a ganwyd yn amlwg yn boblogaidd. Yr arweinydd a'r gynulleidfa yn cydsymud fel un. Y rhan ddechreuol yng ngofal Ysgol Sul Ebeneser. Y thema yn seiliedig ar Salm 150 a Dafydd y Telynor. Cafwyd datganiad gan Catrin ar y corn tenor. Diolchwyd i'r plant a fu'n casglu at y Genhadaeth Dramor. Diolchwyd i bawb gan y Parchedig Gwynfor Williams. Yna i'r Ganolfan a mwynhau te campus drwy garedigrwydd cyfeillion Ebeneser.

Gohebydd – Branwen Edwards

GWEITHREDU DROS BLANT CYFRANIADAU

MAI / MEHEFIN 2014

Bethel, Mynydd y Fflint, Glannau Maelor	£245-00
Bethel, Mynydd y Fflint, Rhodd gan Delyth	£35-00
Bethel, Mynydd y Fflint, Dienw	£20-00
Bethel, Mynydd y Fflint, Ffrind	£20-00
Shiloh, Tregarth, Môn ac Arfon	£50-00
St John's Bangor, Bangor a Chaergybi	£57-20
Eglwys Unedig Colwyn, Dyffryn Conwy	£150-00
	£577-20

Gyda diolch am bob cyfraniad.
Robin Jones, Cyswllt Synod Cymru,
Gweithredu dros Blant.



Trefnwyd Llam Ffyddiog arall ddechrau Mehefin ar Weiren Wib Chwarel y Penrhyn. Dyma lun Gwynfor Rowlinson a gododd £100 ar gyfer Gweithredu dros Blant.

Beth mae gweinidogion yn ei wneud drwy'r dydd?

gan y Parchedig James Patron Bell

Pan oeddwn yn siarad ag un neu ddau o'r aelodau yn Llambod, dyma nhw'n gofyn beth rwyf yn ei wneud drwy'r wythnos. Felly es ati i nodi beth wnes i yn ystod yr wythnos ddilynol. Dim ond sampl o wythnos yw hon, gan fod pob wythnos yn wahanol. Rwy'n ceisio dechrau'r dydd gyda rhyw awr i awr a hanner o weddi ac astudiaeth Feiblaidd, ond pan fyddaf yn gorfod rhuthro i ffwrdd i rywle gall hyn fod yn llawer byrrach.

Dydd Iau 5 Mehefin: 'Cawl y Myfyrwyr' – am y rhan fwyaf o'r diwrnod. Treulio amser yn gosod pethau, yna gweini a thacluso ar y diwedd. Treulio gyda'r nos yn parhau i baratoi'r gwasanaeth a'r bregeth ar gyfer y Sul.

Dydd Gwener 6 Mehefin: Dydd Gorffwys – er mai dydd Mercher yw fy niwrnod gorffwys fel arfer, wedi ei symud yr wythnos hon i gwrdd â hen ffrindiau.

Dydd Sadwrn 7 Mehefin: Mynd i Landre ar gyfer lansio llwybr Llefydd Llonydd, gyda Chapel Ebeneser, Ystumtuen, yn rhan o'r llwybr. Felly roeddwn yno yn cynrychioli'r capel yn swyddogol, ac yn edrych ar sut mae hyn yn rhoi cyfle i annog pobl i ymweld â rhai o'n heglwysy gwledig. Os ydych am wybod mwy am Llefydd Llonydd ewch i'r wefan: <http://peaceful-places.com/> Ar ôl hynny, teithio adref ac yna gorffen rhoi trefn ar y gwasanaethau at y Sul.

Dydd Sul 8 Mehefin: Gwasanaeth y bore gyda'r gynulleidfa Gymraeg yn Sant Paul Aberystwyth, lle dathlwyd y Pentecost a rhannu yn Sacrament Swper yr Arglwydd.

Yn ystod y prynhawn ysgrifennu rhai darnau ar gyfer cylchgrawn y cylch Saesneg ei iaith, ac yna rhai ymweliadau bugeiliol.

A gorffen y diwrnod gan ddathlu'r Pentecost yng Nghapel Ficer.

Dydd Llun 9 Mehefin: Lan i Aberystwyth ar gyfer cyfarfod gweddi Menter Gobaith, lle byddwn yn cwrdd â'r gweithiwr datblygu ieuencid, i weddio dros y gwaith gyda phobl ifanc yng Ngogledd Ceredigion.

Ar ôl hyn roedd Cyfarfod y Gweinidogion yn Aberystwyth, lle rydym yn dod at ein gilydd ar gyfer gweddi, astudiaeth Feiblaidd, cefnogi'n gilydd a chymdeithas.

Yn y prynhawn, darllen drwy bapurau Agenda'r Gynhadledd i wybod beth fydd yn digwydd. Hefyd, paratoi darnau ar gyfer y gwasanaeth Cylchdeithiol ddiwedd mis Mehefin. Ac yna ysgrifennu rhan o'r bennod gyntaf o fy nhraethawd hir.

Gyda'r nos roedd Pwyllgor Rheoli Menter Gobaith, lle rwyf yn cynrychioli

gwaith y Methodistiaid Cymraeg yng ngogledd Ceredigion.

Dydd Mawrth 10 Mehefin: Paratoi sgwrs ar gyfer y Grŵp Cyfeillgarwch, a dal i fyny â phethau a oedd wedi cronni dros y penwythnos.

Yn y prynhawn siarad â'r Grŵp Cyfeillgarwch yn St Paul ynghylch banciau bwyd, ac yna ymweld â'r ysbty.

Dydd Mercher 11 Mehefin: Gorffen y llythyr gan y gweinidog ar gyfer cylchgrawn y cylch Saesneg, a gwneud rhywfaint o waith paratoi gwasanaethau.

Yn y prynhawn i lawr i Gaerfyrddin ar gyfer cyfarfod i drafod y digwyddiadau ym Mhabell Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol – edrych y tro hwn ar yr addoliad a'r rhaglen ddyddiol.

Dydd Iau 12 Mehefin: Draw i Church Stretton, ar gyfer cyfarfod Y Cyngor, sef y corff sy'n cydlyn gwaith rhwng y Methodistiaid Saesneg a Chymraeg yng Nghymru. Ar y Cyngor rwy'n un o'r rhai sy'n cynrychioli'r gwaith Cymraeg.

Dyma sampl felly o wythnos ym mywyd gweinidog, rhywun sydd â gofal am 5 cynulleidfa ar draws Ceredigion a rhan arweiniol yn y gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, ac sy'n gaplan i'r brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan. Ac sydd â bywyd teuluol gartref. Beth sydd ddim yn cael ei gofnodi yma yw llawer o'r pethau bach sy'n digwydd drwy gydol yr wythnos. Mae sgysrsiau byr gyda phobl a sgysrsiau bugeiliol yn digwydd ym mhob man. Mae galwadau ffôn, negeseuon e-bost, darnau eraill o waith gweinyddol ac ymholiadau cyffredinol yn dod bob wythnos. Ac wrth gwrs mae amser yn cael ei dreulio yn gyrru o gwmpas y rhan hardd ond anghysbell hon o orllewin Cymru. Er bod llawer o bethau mawr yn digwydd, yn aml gall y pethau bach fod lawn cyn bwysiced.

Darlith Flynyddol Cymdeithas Emynuau Cymru

'YMLADD BRWYDR FAWR Y GWIR'
– EMYNAU'R RHYFEL MAWR

Anerchiad gan
yr Athro Gerwyn Williams, Bangor

Pabell y Cymdeithasau
Maes Eisteddfod Genedlaethol
Cymru, Sir Gâr

**Bore Mercher, 6 Awst 2014
10.30am**

CROESO CYNNES I BAWB

CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Dros y blynyddoedd bûm yn ffodus iawn o gael cynnig, gan gyfeillion caredig, sawl llyfr yn trafod crefydd a diwinyddiaeth. Llyfrau oedd y rhain a fu'n perthyn i rieni a theidiau'r rhoddwyr a chan hynny'n anodd eu difa neu'u rhoi yn y bin sbwriel. Ymhlith y cyfrolau hyn roedd sawl esboniad Beiblaidd yn dangos ôl astudio manwl arnynt mewn oes a fu. Pan fydd dyn yn cael anrheg mae'n anodd ei wrthod ac nid oedd gen i galon i ddweud nad oedd i'r esboniadau hyn fawr o werth erbyn hyn.

Os bu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn oes aur cyhoeddi esboniadau yng Nghymru, fe fu'r ugeinfed ganrif yn fwy na chyfoethog yn y maes yn enwedig yn America a'r Almaen. Er ei bod hi'n anodd credu'r peth, mae mwy o astudio'r Beibl a'i gefndir yn digwydd erbyn hyn, a chyfrolau swmpus yn ymddangos yn rheolaidd. Mae arbenigwyr Beiblaidd yn edrych yn llawer iawn mwy manwl ar ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythurau cynharaf gan roi goleuni newydd inni ar sawl peth yn yr Hen Destament a'r Testament Newydd.

Wedi dweud nad yw'r hen esboniadau o werth heddiw, mae'n rhaid cydnabod bod haneswyr yn y maes yn cael budd ohonynt wrth olrhain datblygiad gwybodaeth Feiblaidd dros y canrifoedd. Mae'r un peth yn wir am y cofiannau a gyhoeddwyd i weinidogion mawr a mân. Nid ydynt yn rhan o faes darllen pobl bellach ond maent yn gloddfa gyfoethog i haneswyr eglwysig ac weithiau i'r rhai sy'n olrhain eu hachau teuluol.

Un o'r cyfrolau a gefais yn anrheg yn ddiweddar iawn oedd Hanes Methodistiaeth Arfon - Dosbarth Bangor hyd at 1900, a gyhoeddwyd gan y Parchedig William Hobley yn 1924. Ganwyd William Hobley yn Baladeulyn, Arfon yn 1858. Addysgwyd ef mewn ysgolion preifat yng Nghaernarfon ac yn 15 oed aeth i Goleg Aberystwyth. Aeth i Goleg y Bala wedyn ac fe'i hordeiniwyd ef yn 1882. Bu'n weinidog ym Mwcle, Sir y Fflint am 11 mlynedd; ymneilltuodd o'r weinidogaeth a symud i Gaernarfon lle bu'n byw gweddill ei oes ar ei adnoddau personol, gan bregethu'n gyson hyd ei farw yn 1933. Ei brif waith llenyddol yn ôl E Morgan Humphreys, oedd y chwe chyfrol ar Hanes Methodistiaeth Arfon a gyhoeddwyd ganddo rhwng 1910 a 1924. Er mai hanes Dosbarth Bangor sydd yn y gyfrol yn fy meddiant, mae ei ragarweiniad o 148 o dudalennau yn un o'r pethau mwyaf gwreiddiol a welais mewn llyfr o'r fath erioed. Mae'r rhagarweiniad hwn yn codi'r llyfr i dir uchel ac mae'n werth ei ddarllen er mwyn cael blas ar ddawn a gwybodaeth eang William Hobley.

Olrhain hanes achosion y Dosbarth mae gweddill y llyfr ac mae'n darlunio dewrder ac ymroddiad y cyndadau Methodistiaidd a fu'n brwydro tloedi ac erledigaeth enbyd. Fe geir sawl hanes am deuluoedd yn colli eu tai a'u swyddi am feiddio gadael yr Eglwys Wladol a throi at yr enwadau anghydfurfiol. Mae'n rhwydd anghofio eu haberth ond a fyddai gennym ni ddigon o ddewrder i ddilyn eu hesiampl pe byddai achos o'r fath yn dod i'n rhan heddiw?

Nid pethau trist yw'r cyfan a geir yn y gyfrol o bell ffordd ac mae'r awdur yn disgrifio rhai cymeriadau yn ffraeth iawn. Mae yma hefyd hanesion am bobl digon cyfrwys fel Vincent, ficer Llanfairfechan. Arfer y Methodistiaid o'r ddau enwad oedd cael Ysgol Sul rhwng 9 ac 11 o'r gloch ac yna mynd i Eglwys y Plwy i ganu yn y côr. Yn 1852 newidiodd Vincent

YN Y DWYS DDISTAWRWYDD

gan ELWYN PARRY

Mewn byd aflonydd, diorffwys a therfysglyd, a oes unrhyw beth hyfrytach na distawrwydd? Mae mwy nag un math o ddistawrwydd. Cyn storm, bydd distawrwydd a thrymder sydd bron yn annaturiol. Yna ar ôl y storm bydd distawrwydd ysgafn, esmwyth a chawn wir dawelwch sydd yn fwy nag absenoldeb sŵn. Gwn imi deimlo tawelwch o'r fath mewn dau le yn arbennig.

Yn fachgen bach byddwn yn eistedd gyda fy nhaid ac yntau'n brysur yn gwneud cyfrifon yn ei stydi. Byddwn yn cael colofn o rifau i'w cyfrif, a darn chwe cheiniog am gyfrif yn gywir. Yna, ar ôl gorffen, eisteddem o boptu'r tân, Taid gyda'i getyn a finnau gyda llyfr, heb yngan gair. Tawelwch llwyr o'm mewn.

Cofiaf hefyd fynd gyda ffrindiau i Ynys Iona, yr ynys gysegredig. Wrth nesáu at yr ynys, fe deimlais rywsut fod rhywbeth arbennig yno imi. Cerddais heibio hen eglwys St Ronan a throi i lawr "Stryd y Meirw" at yr Abaty. Yn y distawrwydd esmwyth, llethol, tangnefeddus cyffyrddwyd fy nghalon. Gwyddwn, er mai creadur pechadurus oeddwn, fy

amser gwasanaeth y bore i 10 o'r gloch gan feddwl y byddai'r capelwyr yn troi at yr eglwys. Ni ddigwyddodd hynny ond bu'r ficer yn ddigon hirben i logi Eos Llechid i ddysgu cerddoriaeth yn wythnosol yn yr Eglwys. Llwyddodd y cynllun ac enillodd Vincent, chwarae teg iddo, nifer dda o gantorion y capeli fel aelodau llawn yn ei eglwys.

Mae hanes y brwydrau diwinyddol ac enwadol oll yn y gyfrol, ond fe geir cipolwg hefyd o gydweithio annisgwyl ar adegau. Fe welir hefyd ysbryd brawdol ar waith fel y digwyddodd yn y Felinheli pan agorwyd y capel yn 1840. John Elias oedd y pregethwr gwadd a dywedodd fod tri chapel o fewn ergyd carreg i'w gilydd yn y pentref sef y Wesleaid, yr Annibynwyr a'r Methodistiaid. Cymharodd hwy i dair caer, gan obeithio na fyddent yn tanio at ei gilydd ond yn hytrach troi eu magnelau ar deyrnas y tywyllwch.

Nid Hobley oedd yr unig un i gynhyrchu llyfrau hanes diddorol am ei enwad wrth gwrs. Buddiol i ni fel aelodau o'r Eglwys Fethodistaidd fyddai bwrw golwg o'r newydd ar y cyfrolau a ysgrifennwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif. Pedair cyfrol Dr Hugh Jones Bangor yw'r gwaith hwyaf o bell ffordd. Nid ydynt heb eu beiau fel y dywed Dr Jones ei hun ond mae'r ddwy gyfrol olaf yn y gyfres yn adrodd hanes y gwahanol gapeli a godwyd gan yr enwad hyd a lled Cymru a rhannau o Loegr o ran hynny. O'u darllen fe all sawl aelod ddarganfod cyfeiriadau at berthnasau a fu'n amlwg yn hanes y Cyfundeb. Mae'n ddiddorol sylwi ar y cyfeiriadau at gartrefi'r aelodau hyn a gweld bod yna gysylltiad di-dor gyda'r enwad yn hanes y teuluoedd hyn dros gyfnod o ddwy ganrif. Dylid hefyd wrth gwrs droi at gyfrol Saesneg ysgolheigaidd A H Williams am hanes y Cyfundeb o 1800 i 1858, heb anghofio y deunydd a geir yn y papurau a'r cylchgronau megis *Yr Eurgrawn* a gyhoeddwyd yn ddi-dor o 1809 hyd 1983.

Wrth droi cefn ar gyfrolau o'r fath ac anwybyddu hanes ein cyndeidiau enwadol, rydym mewn peryg o fynd yn debyg i'r mewnfudwyr hynny mae Tilsley yn eu disgrifio fel y *diorffennol drigolion*. Heb wybodaeth o'n gorffennol nid oes yna ystyr i'n presennol, a fawr o ddim gobaith ar gyfer y dyfodol chwaith. Daeth yn hen bryd yng ngeiriau un o'n beirdd i 'yrru ar y meirch/rhag cywilyddio'r tadau yn eu heirch'.

mod yn cyfrif yng ngolwg y Nef a bod Duw yn maddau imi yn Ei fawr drugaredd ac yn gofalu amdanaf hyd dragwyddoldeb.



Adolygiad Hen Achosion Diogelu

Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn y broses o adolygu hen achosion sy'n ymwneud â diogelu, fesul Talaith. Tro Synod Cymru fydd ym mis Medi a mis Hydref eleni. Mae gan y broses ddau amcan:

1. Dysgu gwersi o'r gorffennol ar gyfer y dyfodol.
2. Ystyried a oes achosion lle mae angen mwy o waith nawr.

Cynhelir cyfarfod ar **16 Medi am 2 o'r gloch yng Nghapel Jerwsalem, Wrecsam**, a bydd pob Arweinydd Ardal a phob gweinidog gweithredol yn derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod hwn a mwy o fanylion yn ystod mis Awst. Mae croeso i eraill hefyd, ond os dymunwch chi ddod, a wnewch chi gysylltu â mi ymlaen llaw er mwyn imi gael niferoedd cywir? Mae croeso i chi gysylltu â mi hefyd os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn neu unrhyw fater arall sydd yn ymwneud â Diogelu.

Y Diacon Stephen Roe (Swyddog Diogelu'r Synod)
01248 717084 stephen.roe@methodist.org.uk

Y Cadeirydd yn ymweld â'r gwahanol Ardaloedd

Awst	Medi
3 Ardal Llanrhaeadr	7 Ardal Glannau Meirion a Dyfi
10 gwyliau	14 Ardal Morgannwg
17 Ardal Dyffryn Clwyd	21 Ardal Dyffryn Clwyd
24 Gŵyl Greenbelt	28 Ardal Môn ac Arfon
31 Ardal Ceredigion	

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl



Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystira i chi.
(Mathew 11:28)

Defosiwn

gan y Parchedig J. BRYN JONES

Tybiaf nad fi yw'r unig un fyddai'n hoffi clywed mwy am y ffordd yr oedd y Cristnogion cyntaf yn addoli, ar wahân i'r hyn a wyddom oddi wrth Lyfr yr Actau - 2:43-47 a 4: 32-37. Mae'n dyled yn fawr i Luc am yr ychydig a wyddom. Ond a oes ffynonellau eraill y gellir troi atynt? Flynyddoedd yn ôl, daethpwyd o hyd i ddogfennau mewn tywod yn y Dwyrain Canol a bu'r darganfyddiad yn gymorth mawr i ysgolheigion Beiblaidd. Taflwyd goleuni newydd ar y gwaith o baratoi'r cyfieithiadau diweddaraf o'r Beibl, yn eu plith y Beibl Cymraeg Newydd. Diolch am waith manwl a chaled rhai o'n hysgolheigion yng Nghymru, megis y Parchedig Ddr. Owen E. Evans a'r Parchedig Griffith Thomas Roberts - y naill yn Gadeirydd a'r llall yn Ysgrifennydd y panel cyfieithu am flynyddoedd - heb anghofio eraill a gafodd ran yn y gwaith hwnnw.

Un o'r ysgolheigion a fu'n ceisio dadlennu mwy o wybodaeth am y cyfnod pwysig a diddorol hwnnw ganrifoedd yn ôl yw'r Athro James D.G. Dunn, a dreuliodd oes gyfan fel darlithydd ac awdur amryw o lyfrau safonol. Bu'n bennaeth adran y Mhrifysgol Caeredin a Glasgow ac yn bregethwr cynorthwyol yng Nghylchdaith Caeredin yn Nhalaiith yr Alban. Un o'i lyfrau diweddaraf yw 'The Extent of Early Christian Worship of Jesus'. Ymddangosodd adolygiad o'r llyfr yng nghylchgrawn yr *Expository Times* a dywedir i'r Athro Dunn ddod i'r casgliad mai rhai o brif nodweddion addoli'r Cristnogion cyntaf oedd gweddi, symlrywydd, myfyrdod a'r defnydd a wnaethant o'u mannau cyfarfod, yn bennaf eu cartrefi. Parhaodd y drefn honno fwy neu lai hyd nes y daeth Cystennin yn Ymerawdwr ac yn Gristion.

Mae Dunn hefyd yn gofyn, fel yr awgryma teitl y llyfr, ai Iesu oedd gwrthrych addoliad yr Apostolion, yn fwy felly hyd yn oed na dau berson arall y Drindod. Roedd yr Apostolion wedi bod yng nghwmni Iesu am dair blynedd, a dibynnu llawer arno. Gyda threigladau amser, aeddfedodd eu profiad o'r bywyd newydd wedi'r Pentecost, gan sylweddoli mai Duw y Creawdwr a'r Cynhaliwr, fel y'i datguddiwyd yn ei Fab, ynghyd â'r Ysbryd Glân oedd gwrthrych eu haddoliad.

Wrth feddwl am gyfnod yr Eglwys Fore, a chofio am nodweddion eu bywyd, a oes rhywbeth y gallwn ei ddysgu oddi wrth hynny heddiw, pan fo nifer ein haelodau'n lleihau a llawer o gapeli yn cau? Teg yw gofyn pa mor hir y gall hyn barhau a chynnal y drefn sydd ohoni? Yn nyddiau cynnar y Diwygiad Methodistiaidd, cafodd John Wesley (ac eraill), y weledigaeth o ffurfio'r 'Class Meetings' neu Seiadau lle roedd oddeutu 12 o bobl yn cyfarfod dan eu harweinydd. Bu hynny'n gyfle i sôn am eu profiadau a'u pryderon personol yn ogystal â'u gobeithion am ddyfodol gwaith Duw. Ymwelodd y Parchedig Ddr. Martyn Atkins â'r Unol Daleithiau yn ddiweddar, ac yn ei adroddiad yn y 'Methodist Recorder' mae'n sôn am bobl yn yr eglwys y bu ef ynnddi yn cyfarfod mewn grwpiau bychan o ddwsin, yn debyg iawn i'r dosbarthiadau a ffurfiwyd gan John Wesley. Disgrifiodd Dr. Atkins yr hyn a glywodd ac a welodd fel chwa o awyr iach. Oni ddaeth yr amser i ninnau Gristnogion Cymru, yn hytrach na chanolbwyntio ar bregethu yn unig, wyntyllu'r sefyllfa o ddifrif? Pwy a ŵyr nad yw Duw yn ceisio'n harwain i newid ein dulliau o addoli a chenhadu, a'r modd y dylem addasu ar gyfer y newid sy'n digwydd yn ein cymunedau. Ac onid yw'n bosibl bod pobl yn disgwyl am y math hwn o weithredu gennym fel Methodistiaid, a hynny dan arweiniad yr Ysbryd Glân?


PLANHIGION Y BEIBL

W ARVON ROBERTS

66. MYRR (Hen Destament) (*Cistus creticus*)


Tra oeddent yn eistedd i fwyta, codasant eu golwg a gweld cwmni o Ismaeliaid yn dod ar eu taith o Gilead, a'u camelod yn dwyn glud pêr, balm a myrr, i'w cludo i lawr i'r Aifft. A dywedodd Jwda wrth ei frodyr, "Faint gwell fyddwn o ladd ein brawd a chelu ei waed? Dewch, gadewch inni ei werthu i'r Ismaeliaid; peidiwn â gwneud niwed iddo, oherwydd ein brawd ni a'n cnawd ydyw." Cytunodd ei frodyr.

Genesis 37: 25, 26, 27.



Un o storïau mwyaf adnabyddus yr Hen Destament yw'r un am Joseff yn cael ei fradychu gan ei frodyr. Yna wrth gwrs, pan ddaeth newyn, daethant ato i lys Pharo a gofyn am gymorth. Yn y gwanwyn cynnar ym Mhalestina, mae llwyn, tua'r un faint â rhododendron bychan, yn ffynnu ymysg tywod a chraig. Mae i'w weld ar y gwastadeddau ac ar ochr trumau mynydd. Mae hefyd i'w gael yn Ethiopia a Somalia. Drwy gydol yr haf mae'n bentwr helaeth o flodau prydferth, tebyg i rosynnau gwyllt, o liw pinc yn dyfnhau'n rhuddgoch. Hwn yw rhosyn y graig, a adnabyddir fel 'y planhigyn lot'. Mae glud peraroglus yn dod o bob rhan o ros yn y graig. Defnyddir gwialen fechan gyda chadach meddal arni, i sychu'r defnydd melyn yn ofalus oddi ar y llwyn a'i rowlio'n beli yn barod i'w werthu. Caiff ei ddefnyddio fel persawr – 'lot' mewn Hebraeg – ond trwy gamddealltwriaeth mewn rhannau o'r Hen Destament caiff ei gyfieithu fel 'myrr', cynnyrch y goeden ladanum. Roedd y gwir fyrr yn dod o'r planhigyn a elwir yn 'mor' mewn Hebraeg.

67. MYRR (Testament Newydd) (*commiphora myrrha*)



Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr. *Mathew 2:11.*

Daeth y doethion ag anrhegion gwerthfawr i'r baban Iesu: aur i arwyddo ei frenhiniaeth, thus ei sancteiddrwydd a myrr oherwydd y boen y bu'n rhaid iddo ei dioddef. Glud resin o lwyn mawr neu goeden fach yw myrr. Mae'r boncyff yn fawr ac yn dwyn nifer o ganghennau clymog, a'r rhisgl allanol yn denau a phapurol. Pan dreiddir y rhisgl, daw glud melyn tew i'r golwg, sy'n caledu ac yn troi'n gochlyd wrth ddod i gyffyrddiad â'r aer. Mae'r glud persawrus yn cael ei gasglu a'i werthu fel sbeis neu ffisig.

Roedd myrr yn cael ei ddefnyddio yn yr olew ar gyfer eneiad sanctaidd yn y Tabernacl, ac mewn eli ar gyfer puredigaeth y meirw. Mae'n debyg bod y goeden hon yn tyfu ar hyd arfordir y Môr Coch a rhan ddeheuol Arabia yng nghyfnod y Beibl. Byddai masnachwyr ar gefn camelod yn cludo'r resin o'r Dwyrain.

Ar noson croeshoeliad Crist, daeth Nicodemus at y bedd yn yr ardd i eneinio corff yr Iesu "â thua chan pwys o fyrr ac aloes yn gymysg. Cymerasant gorff Iesu, a'i rwymo, ynghyd â'r peraroglau, mewn llieniau, yn unol ag arferion claddu'r Iddewon. (Ioan 19:39,40.)


68. MYRTWYDD (*myrtus communis*)

Ar y pedwerydd ar hugain o'r unfed mis ar ddeg, sef mis Sebat, o ail flwyddyn Dareius, daeth gair yr Arglwydd at y proffwyd Sechareia fab Beracheia...

Dywedodd Sechareia: Neithiwr cefais weledigaeth, dyn yn marchogaeth ar geffyl coch. Yr oedd yn sefyll rhwng y myrtwydd yn y pant... *Sechareia 1:7,8.*

Mewn gweledigaeth fe welodd y proffwyd Sechareia angel yr Arglwydd yn sefyll rhwng y coed myrtwydd. Daw enw'r planhigyn hwn o'r gair Groeg sy'n golygu 'persawr' ac mae'n llwyn mawr bytholwyrdd a all dyfu i dros ddeunaw troedfedd o uchder. Mae'r ymadrodd "blaenffwrth gorau'r coed" yn Lefiticus 23:40 yn cyfeirio at y myrtwydd. Mae'n gyffredin yng Ngallilea a Samaria. Hyd heddiw fe'i defnyddir gan yr Iddewon i addurno siediau a stondinau ar wyl y Pebyll, sef y seithfed a'r olaf o'r gwyliau yn y flwyddyn Iddewig.

Ceir blodau gwyn prydferth ar y myrtwydd ac mae persawr ei flodau yn cael ei ystyried yn fwy rhagorol na phersawr rhosyn. Mae gwerth meddyginiaethol i'w aeron porffor-du a adnabyddir wrth yr enw mursinnau. Cochlyd yw lliw'r rhisgl, a'r dail yn hirgrwn ac yn esmwyth iawn a disglair. Roedd y goeden hon yn cael ei diwyllio'n ofalus gan y Rhufeiniaid. Heddiw yn yr Eidal defnyddir y dail fel sbeis, ac yn



Syria mae pob rhan o'r planhigyn yn cael ei sychu i wneud persawr. Defnyddir ei risgl a'i wraidd ar gyfer trin lledr yn Rwsia a Thwrci. Nid yw'r myrtwydd yn gynhenid i Brydain er ei fod yn cael ei dyfu yma, mewn tai gwydr yn bennaf.

Addawodd y proffwyd Esea i'r rhai edifeiriol, wrth gymharu drain hyll y fiaren a phurdeb y myrtwydd, "Bydd ffynidwydd yn tyfu yn lle drain, a myrtwydd yn lle mieri" (Esea 55:13). Mae ei enw Hebraeg, 'hadas', yn llythrennol yn golygu melynster a dyna darddiad yr enw Esther. "Yr oedd ef wedi mabwysiadu ei gyfnither Hadassa, sef Esther, am ei bod yn amddifad. Yr oedd hi'n ferch deg a phrydferth; a phan fu farw ei thad a'i mam, mabwysiadodd Mordecai hi'n ferch iddo'i hun". (Esther 2:7).

O'R PEN YMA



gan Angharad Tomos

Newydd ddychwelyd o'r Alban ydw i, wedi bod yn gweld sut mae cenedl yn paratoi ar gyfer annibyniaeth. Mawr yw'r brwdfrydedd, y trafod a'r dadlau. Yr hyn sydd yn nodweddu'r cyfan yw gobaith. Mae gobaith gwirioneddol o gael Alban wahanol. Ac wrth gwrs, mae delfrydiaeth yn nod - gwlad lle mae cyfiawnder rhwng y tlawd a'r cyfoethog, gwlad lle na fydd Trident ac arfau niwcliar, gwlad fydd yn croesawu mewnfudwyr, gwlad fydd â'r gallu i ofalu am ei materion ei hun. Fe ddaru ni gyfarfod â phob math o bobl, ond roedd yna un llinyn arian yn eu clymu - cyfiawnder a chydraddoldeb.



Nid creu ffiniau y mae'r rhain eisiau ei wneud, ond eu hagar. Adeiladu Alban newydd fydd yn wlad gynhwysol. Mae mwy o anghyfarfartedd rhwng y tlawd a'r cyfoethog ym Mhrydain nag unrhyw wlad yn Ewrop ar wahân i dair. Chaiff gwragedd ddim cyfle teg, chaiff plant ddim cyfle teg ym Mhrydain. Wrth ddeall hyn, mae'n anodd meddwl pwy fydd yn pleidleisio Na!

Ond mae'r cyfryngau, y wasg a'r teledu i gyd yn eu gwaith yn creu ofn ac yn bychanu pobl yr Alban. 'Dydyn nhw ddim digon cyfoethog, dydyn nhw ddim digon galluog i lywodraethu eu hunain'. Rydym yn gyfarwydd â'r dadleuon hyn yng Nghymru, ac mae llawer ohonom yn eu credu.

Beth bynnag fo'n digwydd ar Fedi 18 yn y Refferendwm, fydd pethau byth yr un fath. Fel y dywedodd un nain sydd wedi mwynhau canfasio, "Dydw i ddim am fynd yn ôl i eistedd ar y soffâ!" Mae

Fy Ngalgwad i ddod yn Ddiacon

gan y Diacon Stephen Roe

Tua diwedd 1998, daeth yn glir i mi ei bod yn bryd rhoi'r gorau i fod yn athro a newid gyrfa. Yr unig broblem oedd, doedd gen i ddim syniad beth i'w wneud nesaf. Fel bob amser, roedd Angela fy ngwraig yn gefnogol iawn, a hi welodd hysbyseb yn y 'Methodist Recorder' am Weithiwr Lleyg mewn Cylchdaith yn Suffolk. Anfonais gais i mewn a chael cynnig y swydd. Cyn gwneud penderfyniad, aethom i gyd fel teulu i weld y pentref lle y byddem ni'n byw, ac i ymweld â'r ysgol (roedd Christopher, ein mab, yn 5 oed ar y pryd, ac Emily yn 1). Dyna benderfynu derbyn, a symud i Suffolk, ym mis Awst 1999.

Penodiad tair blynedd oedd hwn, felly cyn hir roedd yn amser dechrau meddwl unwaith eto beth ddylwn i ei wneud nesaf. Roedd yr Eglwys newydd gyflwyno cynllun newydd sef Hyfforddiant Sylfaen, cwrs oedd yn agored i bawb oedd am feddwl ymhellach am eu galwad. Teimlwn mai'r peth iawn i mi fyddai gwneud cais i ddilyn y cwrs, ond, unwaith eto, doeddwn i ddim yn gwybod pam, gan fy mod yn credu'n bendant nad oedd Duw yn fy ngalw i fod yn weinidog ordeiniedig. Dechreuais ar yr hyfforddiant. Un o'r pethau gorau am y cwrs oedd fy mod yn cael mynd i Lundain bob mis am ddiwrnod tawel dan arweiniad y Parchedig Mark Wakelin, a etholwyd yn Llywydd y Gynhadledd yn 2012-13. Roedd y diwrnodau tawel hyn yn cynnig lle ac amser i wrando ar Dduw, i glywed beth oedd Duw yn ceisio ei ddweud wrthym, rhywbeth nad yw'n digwydd yn aml iawn yn ein bywydau prysur. Ar ddiwedd un o'r dyddiau hyn, roeddwn yn cael sgwrs efo Mark, a mynegais fy nheimplad nad oeddwn i'n sicr i beth roedd Duw yn fy ngalw. 'Wyt ti erioed wedi meddwl am fod yn ddiacon?' gofynnodd. Wel, nac oeddwn,

achos doeddwn i erioed wedi clywed am ddiaconiaid yn yr Eglwys Fethodistaidd o'r blaen. Tua diwedd y nofel gyntaf yng nghyfres nofelau 'Harry Potter', mae Harry yn rasio'n enbyd yn erbyn yr Arglwydd Voldemort, yr un drwg, er mwyn cael gafael ar Faen yr Athronydd. Mae'r Maen hwn yn rhoi arian a bywyd diddiwedd i'r un sy'n ei ddal. Ar ôl nifer o dreialon, mae Harry yn sefyll o flaen drych, heb ddim syniad beth i'w wneud nesaf, sut i gael gafael ar y Maen. Mae o jyst yn gwybod ei fod o eisiau'r Maen er mwyn ei rwystro rhag mynd i ddwylo Voldemort, a fyddai'n ei ddefnyddio i reoli'r byd. Ac yn sydyn, mae Harry'n teimlo bod y Maen wedi syrthio i mewn i'w boced. Does ganddo ddim syniad o ble na sut y daeth. Roedd yn debyg yn fy achos i. Roeddwn wedi bod yn chwilio am ewyllys Duw ar gyfer fy mywyd, ac yn sydyn ac annisgwyl, roeddwn wedi dod o hyd iddo, neu, mewn ffordd, roedd o wedi dod o hyd i mi.

Wrth gwrs, dim ond man cychwyn oedd hyn, a arweiniodd at broses hir o ymgeisio, ond o'r diwedd, un bore ym mis Mai 2003, derbyniais lythyr yn dweud bod fy nghynnig i fod yn ddiacon wedi cael ei dderbyn ac y cawn ddechrau fy hyfforddiant. Oherwydd ein hamgylchiadau teuluol, cytunwyd y dylwn fynd yn llawn-amser i Wesley House, Caergrawnt, am gyfnod o un flwyddyn, gan aros yno yn ystod yr wythnos a mynd adref ar y pen-wythnosau. Felly, yn gynnar ym mis Hydref 2003, dechreuais ar y cyfnod nesaf o'm hyfforddiant. Roedd sawl penderfyniad pwysig o'n blaenau. Tybed i ble y byddwn yn cael fy anfon fel diacon ar brawf?

Diolch i'r Diacon Stephen am yr hanes. Ceuch ddarllen y tro nesaf sut y daeth Stephen i Gymru.

COFIO'R PARCHEDIG IWAN LEWIS

gan y Parchedig Raymond Hughes

Dyma englyn coffa i Iwan gan y Parchedig Gerald Jones. Mae'n cyfeirio at gyfarfodydd misol oedd yn cael eu cynnal yng nghapel Cymraeg y Trallwm, pan fyddai amrywiol syniadau a phrofiadau yn cael eu rhannu.

Saif banter ein safbwyntiau – a burum

Ein bore seiadau.

Yna'r heddw'rth rannu'r hau

Yn wylaidd a di-waliau.

TYMOR YR HAF



gan
Dewi Rhys

Wrth imi ysgrifennu, mae'r haul yn tywynnu y tu allan ac awel gynnes yn chwythu'n ysgafn

trwy ddrws y cefn. Crys T, trowsus byr a sandalau am fy nhraed. Gwydraid o ddŵr â rhew o fy mlaen – ac mae'n siŵr y bydd angen ei ail-lenwi cyn imi ddarfod yr erthygl yma.

Anodd credu, ond rhyw fis yn ôl, glaw oedd yn taro'r ffenestr, y drws cefn ar gau, gwres canolog ymlaen, siwmpwr tew a sanau trwchus am fy nhraed gyda phaned o goffi poeth ar y bwrdd o'm blaen.

Ie, pan ddaw'r haf bydd newid mawr yn ein trefniadau. Dyddiau yn ymestyn a dim mwy o swatio o flaen tân gan ddarllen llyfr neu wyllo'r teledu. Amseroedd rhaglenni teledu hefyd yn newid, yn enwedig eleni, gyda holl chwaraeon y bydysawd i'w gweld, yn bêl-droed, tennis, criced ac athletau o fore gwyn tan nos. Efallai y bydd y nofel yn cael ei rhoi i lawr er mwyn gwneud ymdrech yn yr ardd neu fynd am dro cyn iddi nosi.

Bydd trefn y plant yn newid – canolbwyntio ar arholiadau, wedyn gwallgofi drwyddynt pan fydd yr ysgol yn cau am wyliau estynedig. Daw cyfle i deuluoedd dreulio amser gyda'i gilydd ac efallai fynd ar wyliau teuluol. Mynd i wlad dramor sy'n apelio at lawer. Chwilio am fargen ar y we ond talu crochris yn y diwedd, am wythnos yn rhywle fel Sbaen, sy'n orlawn o ymwelwyr. Nid i ddiwallu anghenion y plant y bydd hyn ond yn hytrach i roi cyfle i'r rhieni 'addoli' yr haul a gorwario ar ryw le aros digon anaddas.

Beth sydd o'i le ar aros yn ein milltir sgwâr a dod i adnabod ein gwlad ein hunain a'i mwynhau? Mae cymaint i'w weld, llawer ohono yn rhad ac am ddim. Treulio amser yn ein Parc Cenedlaethol, er enghraifft, a darganfod rhyfeddodau ein tirwedd a'n hanes. Beth sydd o'i le ar grwydro mymryn pellach dros y ffin a mwynhau ardaloedd megis Swydd Efrog neu Derby? Ie, arhoswch noson a gwerthfawrogi eu bwyd traddodiadol a'u croeso cartrefol, fydd yn rhatach a mwy derbyniol na rhywle di-lun a swnllyd a welwyd mewn llun ar y we.

Edrychaf ymlaen at gyfle yn ystod yr haf i roi trefn ar y tu allan i'r tŷ a'r rwtsh sydd yn yr ardd, er yn dawel bach caf hoe fach i ddarllen rhai o'r holl lyfrau sydd heb eu cyffwrdd.....yn lle?.....yn yr ardd gefn.....yn yr haul!

Penwythnos Merched Methodistiaidd ym Mhrydain, Swanwick 2014

gan Rona Morris

Cefais gyfle i fynychu penwythnos Merched Methodistiaidd yn Alfreton ger Derby ar ran aelodau Synod Cymru. Yn anad dim, parodrwydd y gwagedd i drafod ac i rannu profiadau eu taith ysbrydol wrth geisio ymdopi â phroblemau bywyd anodd a dyrws wnaeth y gynhadledd hon yn wahanol i benwythnosau eraill pan fo criw o ferched yn ymgynnull i fwynhau cwmni ei gilydd.

Y Parchedig

Ddoctor
Barbara
Glasson fu'n
arwain ein
myfyrdodau.
Bu hi'n
gweithio ers
sawll
blwyddyn
bellach yn
Bradford, gan
gydweithio â
phobl o
ddiwyllynnau
a chrefyddau eraill.



Dysgodd drwy brofiad fod rhaid bod yn hyblyg a sylweddoli na fyddwn bob amser yn cytuno ar bopeth o fewn ein heglwys; ond mae'n rhaid i ni goffio dysgu parchu barn eraill a meithrin y ddawn i wrando'n ofalus ar ein gilydd. Cawsom ein harwain i feddwl am yr holl wragedd sydd yn gweithio mewn swyddi anodd ac annymunol er mwyn cynnal a chadw eu teuluoedd. Merched yn y wlad yma sydd yn gweithio oriau hir er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Merched sydd yn gweithio yn creu dillad mewn ffatrioedd anaddas a pheryglus a'r gweithwyr yn yr India sydd yn cael eu cyflogi i drin carthion a'r gwastraff o strydoedd a chartrefi y dinasoedd. Clywsom fel y bydd y mudiad yn ceisio hybu, cynnal a chefnogi ymgyrchoedd sydd yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r problemau a wynebir gan y merched yma.

Ar y prynhawn dydd Sadwrn cawsom ddewis gweithdai i'w mynychu. Euthum i wrando ar ac ymuno mewn trafodaeth am pam y dylem ni drafferthu i gefnogi y rhai hynny sydd yn trefnu Banciau Bwyd ledled y wlad. Cawsom arweiniad ar pa fath o gwestiynau i'w gofyn i Aelod Seneddol a chawsom esiampl o lythyr addas i'w anfon atynt (www.church-poverty.org.uk/wtb).

Alison Powell fu'n arwain y drafodaeth a gawsom i ystyried pam y dylem drafferthu i feithrin ein perthynas â Duw. Pwy sydd yn gyfrifol am ddatblygiad ein ffydd? – Gweinidogion, aelodau'r Eglwys, teulu, ffrindiau neu ni ein hunain. At bwy fyddwn ni yn troi

pan fydd Duw yn ymddangos fel petai'n fud ac yn fyddar? Yn amlach na dim yn ystod y cyfnodau hynny, pan fyddwn mewn trafferthion, y bydd ein perthynas â'n Duw yn aeddfedu.

Ar y bore Sul cafwyd gwasanaeth bywiog wedi ei drefnu gan ferched o Zimbabwe.

Gwnaed apêl gan Joyce Powell ar ran aelodau o'r gweithgor sydd yn ceisio cofnodi a chasglu hanesion am ddatblygiad gwaith y merched o fewn yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain. Os oes gennych chi atgofion neu luniau o ddigwyddiadau pwysig yn hanes Synod Cymru cofiwch gysylltu. Cawsom glywed am weithgareddau a chyfarfodydd llwyddiannus a drefnwyd ledled y wlad sydd yn dangos ein bod yn rhan o eglwys egniol, effeithiol a byw. Edrychwch ar wefan Mwib am fwy o fanylion y teithiau a'r adnoddau a drefnir ganddynt.

Erys egni, brwdfrydedd, diffuant-rwydd, llawenydd a huodledd y siaradwyr ynghyd ag amrywiaeth y gweithgareddau a drefnir gan y mudiad yn y cof.



Merched o
Zimbabwe
a
arweiniodd
wasanaeth
y bore

Y llynedd yn ein cyfarfod blynyddol awgrymwyd y gall pwyllgor Synod Cymru gyfrannu at gostau'r penwythnos pe bai rhywun arall am ymuno â ni i fynychu'r gynhadledd. Rhaid cofrestru ddechrau mis Tachwedd 2014 ar gyfer y gynhadledd a gynhelir rhwng 17-19 o Ebrill, 2015.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â mi cyn ein cyfarfod nesaf a gynhelir yng nghapel Bathafarn, Rhuthun ddydd Sadwrn Hydref 11eg am 2:30 p.m.

ronamorris2@hotmail.co.uk neu
dyma'r rhif ffôn: 01691 780226.

Y Gynhadledd Fethodistaidd, 2014

gan y Parchedig
Martin Evans-Jones

Criw bach o 5 – Jennie, James, Eluned, Arfon a minnau – oedd cynrychiolwyr Synod Cymru yn y Gynhadledd eleni ond cynrychiolaeth bwerus er hynny. Fe lwyddasom i gael pawb o'n cwrdd i'n cyfarch yn Gymraeg erbyn y diwedd! Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

Eisteddiad y Gweinidogion

Pregethodd y cyn-lywydd **Kathleen Richardson** yn y gwasanaeth cymun i ddathlu deugain mlynedd ers i ferched gael eu derbyn i'r weinidogaeth. Soniodd am ei galwad o fod yn athrawes addysg grefyddol i roddi'r "cwbwl oedd ynddi" i'r weinidogaeth.

Eisteddiad yr holl Gynrychiolwyr

Clywsom gan Ysgrifennydd y Gynhadledd am y newid mawr yn ein cymdeithas. Nid 'gwyn' yw mwyach ond 'amryliw' ac aml-dras. Rhaid i'r Eglwys groesawu pawb mewn un teulu a chreu cymdeithas gyfartal rhwng pawb. Galwyd am weithgor i ystyried sut i wneud hyn. Bu raid i ni, y Cymry Cymraeg, atgoffa'r Cyfundeb fod genym ni brofiad maith o gael ein gyrru i'r ymylon.

Cafwyd trafodaeth am y sefyllfa ffrwydrol yn **Israel a Phalestina** a'r alwad i beidio â gyrru nwyddau i Israel i'w chymell i ddod i'r bwrdd trafod am gymod a heddwch. Ond, yn siomedig, eistedd ar y clawdd a wnaeth y Gynhadledd, a phenderfynu dal i drafod y mater am 2 flynedd arall.

Cawsom hanes Cynhadledd y Plant a'r Ifanc, **3Generate**, fu'n llwyddiant mawr. Gobeithio y bydd Synod Cymru'n cael ei chynrychioli y tro nesaf y bydd 3Generate yn cyfarfod.

Ar y dydd Mawrth daeth cynrychiolaeth o'r **Lluoedd Arfog** i annerch y Gynhadledd ac i apelio ar weinidogion i ystyried bod yn gaplaniaid yn y fyddin. Ond ni soniwyd pam y'r aethom i Iraq ac Afghanistan yn y lle cyntaf na phaham fod gofal mor bitw yn cael ei roi i filwyr a anafwyd yn ddifrifol yn y rhyfel ac sydd yn byw mewn hunllef byth ar ôl hynny. Nis gofynnwyd chwaith a oedd Iesu Grist yn cefnogi rhyfel.

Daethpwyd at faterion **ecwmenaidd**. Ar ôl treulio awr yn trafod y Cyfamod rhwng ein heglwys ni ac **Eglwys Loegr** rhaid oedd gohirio cyfle **Cymru** i drafod y cynigion am **Eglwys Unedig** o dan y Cyfamod (rhwng y **pum** enwad) tan yr hwyr. Pan ddaeth y cyfle, siom oedd clywed fod yr Eglwys Fethodistaidd wedi troi'r cynllun i lawr.

Bore dydd Mercher daethpwyd at y pwnc mwyaf dyrys, sef adroddiad y gweithgor ar **briodas rhwng parau hoyw**. Bu gweithgor yn trafod y mater yn ystod y flwyddyn. Ar un pegwn ceir y safbwynt llythrennol Beiblaidd fod bod yn

hoyw yn bechod, a bod Iesu wedi cyfyngu priodas i ŵr a gwraig. Ar y pegwn arall ceir y safbwynt nad dewis ydyw bod yn hoyw ond rhan annatod o'r natur ddynol, ac felly fod yn rhaid ail-ddiffinio priodas i gynnwys



parau hoyw.

Diolch byth, arbedwyd ffrwgwd; derbyniwyd yr adroddiad gyda'i argymhelliad i'r eglwys drafod y mater yn onest a gweddigar a phawb yn ddiogel i ddweud eu dweud. Maes o law daw adnoddau ar ein cyfer i'n cynorthwyo yn ein trafodaeth. O leiaf agorwyd y drws, gyda chytundeb Cyngor yr Eglwys leol, inni gynnal gwasanaeth o fendith i bâr hoyw sydd eisoes wedi priodi mewn gwasanaeth sifil.

Wrth gwrs rhoddwyd sylw i'n **hystadegau aelodaeth**. Soniodd aelod o Gernyw am bwysigrwydd yr eglwys bychain yn eu cymuned. Ond dywedodd un pregethwr cynorthwyol croenddu mor bwysig oedd i ni gynnig Crist ym mhob pregeth os oeddem am dyfu eto.

Ar ein noson olaf daeth cynrychiolwyr **Synod Cymru a Synod Wales** at ein gilydd i gael swper. Yma yn Birmingham y cychwynnais fy ngweinidogaeth yn 1970 ac ymadewais â'r Gynhadledd yn ymfalchïo mai gwasanaethu Iesu Grist trwy'r pwyslais Wesleidd a wneuthum, a'r arwyddair "fod lle i bawb yn nheyrnas Duw, pwy bynnag y bo" yn dal i gynhesu fy nghalon. Diolch i Dduw!

Brîd Prin

gan y Parchedig Harri Parri

Blaenor yn Sir Fôn ddaru luchio'r cwestiwn ata i, yn ddigon blin: 'Pam nad ydi Duw, bellach, yn galw rhai i'r weinidogaeth?' Wn i ddim pam oedd o yn fy meio i? Ond chwarae teg, llyfu'i friwiau roedd o; ei eglwys wedi bod yn chwilio am weinidog ers pobeidiau – a neb, neb ar gael. (Gwell bod yn ofalus, efallai fod pethau'n gwbl wahanol gyda'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru.) Yn ôl Y Goleuad, does gan yr Hen Gorff fawr mwy na 40 o weinidogion llawn amser, ac oddeutu'r hanner sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mae yna hefyd 10 o weinidogion rhan amser; 'weithiau yn y seiat, ac weithiau yn y byd'. Pan oeddwn i'n dechrau roedd gan yr enwad dros 500 o weinidogion; mwy o lygod nag o dyllau!

Ond os mai brîd prin ydi'r gweinidog, mae gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru nifer mwy o swyddogion a gweithwyr eglwysig o bob math. Hwyrach mai un brand sy'n mynd yn brin. O fynd yn ôl i'r Testament Newydd, yn y gwreiddiol, mae i'r gair diakonia – ac mae o i'w gael fel enw, berf a berfenw – gynifer o ystyron. A meddwl am un math o weinidogaeth, un ddiweddar, a welwyd ar ffurf arbennig yma yng Nghymru, yr oedd yr ymholwr o Fôn.

Hwyrach bod gan yr Eglwys Fethodistaidd amgenach gweinidogaeth

wedi bod. Mae gen i gof fod yna sawl ffurf arni yn Llŷn, unwaith. Yn y pentref agosaf, roedd yna bregethwr lleig. Ond fod yr anghyfarwydd yn mynnu'i alw, am ryw reswm, yn 'bregethwr llyg'. Yna, o fewn tafliad deg carreg, roedd yna Was Cylchdaith – os mai dyna oedd y term iawn – yn bugeilio peth, pregethu ar y Suliau a thrwsio clociau; trin amser a thrafod tragwyddoldeb. Ond ym Mhwlheli y lleolid y gwn mawr, y Goruchwyliwr. A'i swyddogaeth o, am wn i, oedd cadw'r olwynion i droi a gweld fod pawb arall yn eu hoelio nhw.


Bellach, mae yna weinidogaeth newydd ar gerdded, a mawr ddiolch amdani. Fûm i erioed yn credu i mi gael fy ngeni i fod yn weinidog. (Diau y byddai amryw yn cytuno â hynny.) Eto, credaf i mi gael fy ngalw i'r gwaith. A gweinidogaeth hen ffasiwn y Gair a'r sacramentau, a bugeilio, fu fy rhan i. Rhai wedi newid cwch ynghanol yr afon ydi'r diferion o weinidogion a ordeinir gan yr Hen Gorff bellach – os o gwbl. O fod yn gyd-weinidog gyda gŵr o'r fath, Dafydd Lloyd Hughes – ein dau'n gofalu am un eglwys – gwelais fod i weinidogaeth yr ail gynnig ei manteision. Ond i ateb ymholiad y gŵr o Fôn: 'Pam nad ydi Duw, bellach, yn galw rhai i'r weinidogaeth?' Ai Duw sydd wedi peidio galw, neu y ni wnaeth joban mor wael ohoni nes iddo weld fod 'gweinidog' yn ddianghenraid? Y gweinidog o'r hen frîd gorau y bûm i'n cydweithio ag o oedd y diweddar Erfyl Blainey. A Wesla oedd o!

PERERINDOD Y GYMDEITHAS HANES

Beth yw'r Gymdeithas Hanes?

Mae croeso i bawb ymuno â Chymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd. Amcan y Gymdeithas yw cadw mewn cof y lleoedd a'r bobl hynny sy'n bwysig yn ein hanes fel Methodistiaid Cymraeg.


Y llynedd, trefnodd y Gymdeithas daith lwyddiannus iawn i ardal Ann Griffiths, a phawb yn frwdfrydig i gael ail bererindod eleni. Ein bwriad y tro hwn oedd ymweld â lleoedd sy'n gysylltiedig â dechreuad Methodistiaeth Wesleiaidd yng Ngogledd Cymru.



Y Parchedig
Gwynfor Williams



Dr Lionel
Madden



Y Pulpud yn y Goeden



Rhai o'r pererinion


Y capel Wesleiaidd cyntaf yng Nghymru

Ddydd Sadwrn 17 Mai daeth tua 50 ohonom at ein gilydd yn ein capel hynaf, sef Pendref, Dinbych. Ar ôl gair o groeso gan y Llywydd, offrymwyd gweddi gan y Parchedig Gwynfor Williams i ddechrau'r bererindod. Clywsom wedyn gan y Parchedig Martin Evans-Jones sut y dechreuodd y cyfan. Pwysleisiodd gyfraniad arbennig Evan Roberts, saer a phregethwr. Ffydd a dyfalbarhad Evan

Roberts a rhai o'i gyfoedion a ber-swadiodd Thomas Coke i annog y Gynhadledd Wesleiaidd i anfon cenhadon i Gymru yn 1800. Dwy flynedd yn ddiweddarach, yn 1802, adeiladodd y Wesleiaid yn Ninbych eu capel.

Y pulpud yn y goeden

O Ddinbych aethom i Nantglyn. Ym mynwent yr eglwys gwelir coeden fawr, ywen hynafol gyda phulpud carreg wedi'i naddu oddi mewn iddi. Yn ôl traddodiad lleol pregethodd John Wesley ei hun o'r pulpud hwn unwaith. Yn yr eglwys cawsom wasanaeth byr a soniodd y Parchedig Martin Evans-Jones am deithiau John Wesley i Gymru. Awgrymodd y posibilrwydd fod Wesley wedi pregethu yn Nantglyn yn Awst 1756 pan ymwelodd â Phlas Bach, Llansanffraid Glan Conwy ar ei ffordd o Gaergybi i Gaer. Gan ein bod yn cwrdd ar y diwrnod cyn Sul Aldersgate, eglurodd y Parchedig Jennie Hurd arwyddocâd profiad John Wesley ar 24 Mai 1738. Yna canwyd emyn mawr Charles Wesley, 'Iesu, cyfaill f'enaid i' ar y dôn 'Aberystwyth'.



Eglwys Nantglyn



Esgyn gyda'r
lluoedd



Mwynhau tamai
o ginio

Bathafarn

Ymlaen â ni wedyn a chael cip ar ffermdy Bathafarn, cartref un arall o arloeswyr Wesleiaeth Gymraeg, sef Edward Jones, ac yna ymgynnull yng nghapel coffa Edward Jones yn Rhuthun. Cawsom gan Martin ychydig o hanes y dyn mawr hwnnw a rhai o'r cenhadon eraill a sefydlodd Fethodistiaeth Wesleiaidd yng Nghymru. Cawsom gyfle i gofio y dyddiau cyffrous hynny trwy ganu 'Newyddion braf a ddaeth i'n bro' a 'Let earth and heaven agree' – dau emyn a ganwyd gan grŵp o ddynion ifainc a groesawodd John Bryan ar Foel Famau, ar ei ffordd i bregethu yn Rhuthun yn Ebrill 1800. Gorffennodd y rhan olaf hon o'n pererindod gyda'r Parchedig E. H. Griffiths, cyn-Lywydd y Gymdeithas Hanes, yn gweddi a dweud y fendith.

Diolch am ddiwrnod cofiadwy

Roedd y tywydd yn fendigedig trwy gydol y dydd. Daeth diwrnod cofiadwy i ben gyda phryd o fwyd blasus iawn ym mwyty Melin Brwews ger Dinbych. Diolch yn fawr i bawb a sicrhodd lwyddiant y bererindod. Diolchwn yn arbennig i Mr Robin Jones a drefnodd y cyfan mor effeithiol, cwrtais a diffwdan eleni fel y llynedd. Gobeithio y gallwn fynd ar daith eto y flwyddyn nesaf, a cofiwch fod croeso mawr i bawb!

Lionel Madden
(Llywydd y Gymdeithas Hanes)

PERERINDOD Y GYMDEITHAS HANES



Ffermdy Bathafarn



Yn Eglwys Nantglyn

DYDD TAWEL

gan y Parchedig Tudur Rowlands

Ar 17 Mehefin, cyfarfu Gweinidogion ac Arweinyddion Ardaloedd Synod Cymru yng nghapel Tabernacl, Llanfyllin, ar gyfer 'Dydd Tawel' a drefnwyd gan y Parchedig Jennifer Hurd. Ein thema oedd 'Barddoniaeth a Christnogaeth', ac arweinydd y dydd oedd y Parchedig Ddr Manon Ceridwen James, Llysfaen, offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru a bardd.

Yn y sesiwn gyntaf, 'Barddoniaeth ac Ysbrydolrwydd' fu dan sylw. Cyfeiriwyd yn arbennig at A.M. Allchin, a hefyd at gerdd Gwenallt, 'Dewi Sant', lle ceir moliant ac ysbrydolrwydd ynghlwm wrth fywyd bob dydd. Gofynnodd Manon nifer o gwestiynau treiddgar: a oes her i ni yma? Ydi'r gerdd yn ein hatgoffa o sefyllfa fugeiliol? Cyflwynwyd hefyd rai o gerddi Menna Elfyn lle ceir Litwrgi yn thema allweddol, megis

yn ei cherdd 'Cân y di-lais i British Telecom' a 'Wnaiff y gwragedd aros ar ôl?' Holodd Manon: "Ydan ni'n defnyddio araith sydd yn galluogi a helpu eraill, neu yn eu cyfyngu?" Dyma ddiweddglor gerdd:

"Ond pan 'wedir un waith eto o'r sedd sy'n rhy fawr i ferched, 'wnaiff y merched aros ar ôl,' beth am ddweud gyda'n gilydd, ei lafarganu'n salm newydd neu ei adrodd fel y pwnc:

'Gwrandewch chi, feistri bach, tase Crist yn dod 'nôl heddi

byse fe'n bendant yn gwneud Ei de Ei hun."

Yn yr ail sesiwn, ystyriwyd y defnydd o farddoniaeth i dano'r dychymyg, gan

droi at waith Paul Duncan o Ddulyn, 'Free Travel Pass', ac at gerdd yr Esgob Wesley Frensdorff, U.D.A., 'Y Freuddwyd':

"Gadewch i ni freuddwydio am eglwys ... lle y mae pob Cristion, wedi eu cynysgaeddu â'r doniau ar gyfer y weinidogaeth; yn fwy tebyg i long nwyddau na llong fordaith foethus".

Roedd Manon wedi'n rhybuddio ar y dechrau y dylai pob un ohonom oedd yn bresennol ysgrifennu cerdd cyn diwedd y dydd. Cymerodd un ei hawgrym yn rhy llythrennol! Ond bu'n ddiwrnod adeiladol a bu'r gwmniaeth yn ennaint:

O Lithfaen hyd i Lysfaen, Manon ddaeth atom a'i hawch yn daen. Rhoddodd i ni farddoniaeth Fel cyfrwng i fyd gweledigaeth, Ac i alw'i phlwyfolion - A ninnau o fyd allanolion. Heddiw yn Haf Llanfyllin, Aeth Manon â ni at y cyfrin, A chawsom, fel seintiau fu, Y moddion a achubodd Gymru.

Tudalen y Plant

Y GWEDDNEWIDIAD



(Mathew 17:1-8; Marc 9:2-13
Luc 9:28-36)



Mae'r ffenestr liwgar yma yn darlunio hanes gweddnewidiad Iesu. Darllenwch y stori ac wedyn beth am liwio'r llun a chael hyd i'r atebion i'r croesair?

Aeth Iesu i fyny i'r mynydd i weddio. Aeth â Pedr a'r ddau frawd Iago ac Ioan gydag ef. Tra oedd Iesu'n gweddio, newidiodd gwedd ei wyneb ac roedd yn disgleirio fel yr haul, a'i ddillad yn wyn fel goleuni. Ymddangosodd dau ddyn yn ei ymyl, yn siarad â Iesu. Moses oedd un a'r proffwyd Elias oedd y llall. Roeddent yn siarad â Iesu am yr hyn oedd am ddigwydd yn Jerwsalem sef croeshoelio Iesu. Doedd Pedr ddim yn gwybod beth i'w wneud. "Beth am wneud tair pabell, Arglwydd," meddai. "Un i ti ac un i Moses ac un i Elias".

Tra oedd Pedr yn dweud hyn, daeth cwmwl golau drostynt, a llais o'r cwmwl yn dweud, "Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; gwrandewch arno." Syrthiodd y disgyblion ar eu hwynebau, wedi dychryn. Ond daeth Iesu atynt a chyffwrdd â nhw ac meddai, "Codwch, peidiwch â bod ofn". A dyma'r tri yn edrych i fyny a gweld neb ond Iesu gyda nhw.



AR DRAWS

1. Sawl pabell roedd Pedr am ei gwneud?
4. Brawd Iago
5. Lliw gwisg Iesu
6. Simon
8. Er mwyn gwneud beth yr aeth Iesu i'r mynydd?
10. Sawl disgybl aeth gyda Iesu?
11. Mam eich mam

12. Nid uwch

13. Beth oedd uwch eu pennau?

I LAWR

1. Duw
2. Arweiniodd yr Hebreaid allan o'r Aifft
3. Cael braw
7. Proffwyd
8. Nerth
9. Dafad, ond bach